# Garddio a Hwyl!

# Cystadleuaeth Garddio 2021

## *Enillwyr a Sylwadau y Beirniad, Meinir Gwilym*

"Cystadleuaeth agos iawn, efo bob gardd yn haeddu gwobr!"

### *Gardd flaen orau* - **Mel a Steve Hill**

"Hyfryd iawn gweld cymaint o amrywiaeth yn y gerddi, a garddio gyda natur. Perffaith!"

### *Gardd gefn orau* - Cydradd 1af **Jenny Fell** a **Caroline Williams**

"Gerddi gwych i gyd, wedi eu gosod allan yn dda a threfnus. Hyfryd gweld fod Andy'n ceisio cadw'r cydbwysedd rhwng tyfu llysiau i'w bwyta, a pheidio defnyddio plaleiddiaid. Hynny'n gam mawr ymlaen i ni fel garddwyr. Cyfaill Blannu yn help mawr gyda hyn hefyd. Gardd Sue yn llawn amrywiaeth, ac yn edrych yn hynod gynhyrchiol - da iawn!"

### *Darn llysiau gorau* - **Mel a Steve Hill**

"Am erddi hyfryd - Clematis anhygoel ag ol gofal arno yng ngardd Jenny, a thrawsnewidiad gwych yng ngardd Sue - yn hafan iddi hi ac i blanhigion. Natalie wedi gweithio'n galed iawn hefyd, a throi gardd oedd bron yn ddiffeithwch i fyd natur yn ardal sy'n hybu bioamrywiaeth ac yn wych i fywyd gwyllt cynhenid."

### *Border bach orau* – **Natalie Sanders**

"Hyfryd iawn, a chalonogol iawn gweld fod garddwyr yn gadael ardaloedd gwyllt yn eu gerddi - mae'n bwysig gwneud os gallwn ni. Bob gardd wnaeth gystadlu yn werthfawr i fywyd gwyllt. Siaron wedi llwyddo i adael i ardd naturiol ffynnu ac edrych yn wych - fel gardd wedi ei chynllunio. Arbennig!"

### *Gardd wyllt orau* - **Siaron James**

"Y potiau i gyd yn rhai i'w hedmygu heb os. Y leim mewn pot yn edrych yn arbennig o iach! A'r holl flodau eraill yn y potiau yn hyfryd hefyd. Ond yr enillydd, am ddyfeisgarwch, tlysni a diddordeb - Sue Gerryts a'r ardd mewn trelar!"

*Cynhwysydd/pot orau* – **Sue Gerryts**

"Gwych eto. Hyfryd gweld Shisho yn ffynnu mewn pot - blas diddorol iawn. Amrywiaeth wych gan Andy hefyd, a'r saets yn edrych yn iach iawn. Enillydd - Sue Gerryts - Amrywiaeth arbennig, a gwneud defnydd da o botiau."

*Pot o berlysiau gorau* – **Sue Gerryts**

"Roedd hi'n fuan braidd yn y tymor i'r garddwyr allu dangos safon eu llysiau, felly mewn cydymdeimlad am hynny - Cydradd Gyntaf i Jenny a Mel & Steve."

*Llysiau gorau* - Cydradd 1af **Jenny Fell** a **Mel a Steve Hill**

*Blodyn y haul talaf* - **Rishi a Hari**

*Diolch yn fawr iawn i :*

*Bawb sy wedi cystadlu*

*ac enwedig i*

*Meinir Gwilym am farnu*

*x*